Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

## 1af Awst 2023 – 31ain Gorffennaf 2024



*Mae fersiwn Gymraeg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Brifysgol ac mae copïau caled Cymraeg a Saesneg ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*

## CYFLWYNIAD

Mae gan Brifysgol Wrecsam ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fel darparwr addysg mae gan y Brifysgol hefyd ddyletswydd i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith, nid yn unig ymhlith ein gweithwyr a myfyrwyr, ond hefyd gyda rhanddeiliaid allanol eraill.

Caiff y gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ei monitro trwy strwythur pwyllgor ffurfiol y Brifysgol: Pwyllgor Monitro'r Gymraeg, sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n gyfrifol am fonitro'r cydymffurfio, a Phennaeth Datblygu'r Cyfrwng Cymraeg sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r iaith a'i hymgorffori yng nghwricwlwm ac arferion addysgol y Brifysgol.

Pe bai Comisiynydd y Gymraeg angen gwybodaeth ar sut yr ydym yn cydymffurfio â'r safonau, mae dyletswydd arnom i'w darparu, ac rydym wedi ymgysylltu'n adeiladol gyda'r Comisiynydd dros y cyfnod adrodd, ynghylch ein hymdrechion i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg.

Eleni gwelwyd gweithredu blwyddyn lawn gyntaf ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu Academaidd Cyfrwng Cymraeg, CYFLE, a gymeradwywyd y llynedd gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. CYFLE yw'r strategaeth gyntaf o'i bath i gael ei gweithredu yn y Brifysgol yn canolbwyntio ar wella, darparu a datblygu'r Gymraeg, a dengys ymrwymiad parhaus y Brifysgol i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ei hamcanion yn seiliedig ar yr egwyddorion bod y Gymraeg i bawb yn y Brifysgol - staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymdeithas ehangach. Hefyd cymerodd y Brifysgol ran yn ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg, 'Defnyddia dy Gymraeg', gan ymuno â channoedd o sefydliadau ledled Wrecsam yng nghyhoeddiad swyddogol a'r orymdaith ar gyfer ymweliad yr Eisteddfod i Wrecsam yn 2025.

Mae mwy o gyfleoedd ar gael yn awr i staff a myfyrwyr i ymgysylltu â'r Gymraeg, trwy lwybrau Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer myfyrwyr a'r cynllun Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer staff. Mae datblygiad sgiliau'r Gymraeg wedi arwain at diwtor sgiliau Cymraeg llawn amser yn gweithredu yn y Brifysgol. Fel Prifysgol, rydym yn aml yn hyrwyddo'r mentrau Cymraeg gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn dathlu iaith a diwylliant Cymru. Er enghraifft, byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy gynnal bore coffi a chanu caneuon Cymraeg gyda'n gilydd fel staff; rydym yn dathlu'r diwrnod Cymraeg Shwmae/Sumae gyda bore coffi i staff a myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr; ac roeddem yn falch o fod yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym mis Awst.

**Paul Davies Dirprwy Is-ganghellor**

## CYDYMFFURFIAETH

Disodlwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfreithiol

cyfartal ac ni ddylid trin yr un yn llai ffafriol na'r llall. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys annog hyrwyddo'r Gymraeg ac yn mynnu bod darpariaeth yn ei lle ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg **Hysbysiad Cydymffurfio** ar 29ain Medi 2017 i'r Brifysgol yn cynnwys 178 safon unigol y mae gofyn i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw dan y themâu canlynol; darparu gwasanaethau, gweithdrefnol, llunio polisïau a chadw cofnodion.

Mae'r Safonau yn manylu ar gyfrifoldebau'r Brifysgol o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nod y safonau yw:

- ei gwneud yn glir i'r Brifysgol beth yw ei dyletswyddau o safbwynt y Gymraeg,
- ei gwneud yn gliriach i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg gan y Brifysgol,
- gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro sut mae sefydliadau'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac i archwilio cwynion a thorri rheolau yn ymwneud â hyn. Mae ganddynt y grym i osod camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyhoeddi ei hadroddiad blynyddol o Safonau'r Gymraeg erbyn diwedd Ionawr bob blwyddyn, a rhoi'r cyhoeddusrwydd priodol iddo.

## Gweithredu Safonau'r Gymraeg

### Pwyllgor Monitro'r Gymraeg

Sefydlwyd pwyllgor Monitro'r Gymraeg gan y Dirprwy Is-ganghellor ym mis Awst 2018 (yn dilyn diddymu y Grŵp Monitro'r Gymraeg anffurfiol blaenorol) ac ar hyn o bryd caiff ei gadeirio gan Paul Davies, y Dirprwy Is-ganghellor presennol. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r uwch dîm rheoli a staff gweithredol ar lefel briodol, mae'n bwyllgor ymgynghorol nad oes ganddo bwerau gwneud penderfyniadau dirprwyedig ac mae'n Is-bwyllgor i Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor. Mae gan y Dirprwy Is-ganghellor arweinyddiaeth strategol ar gyfer Safonau'r Gymraeg o safbwynt iaith a chydymffurfio. Bodlonir gweithrediad o ddydd i ddydd y ddarpariaeth Gymraeg gan Bennaeth Datblygu'r Cyfrwng Cymraeg a Hyrwyddwr y Gymraeg yn y Brifysgol. Bodlonir gweithrediad o ddydd i ddydd y gydymffurfiaeth Gymraeg gan

Gwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth. Y Dirprwy Is-ganghellor sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfiaeth y Brifysgol â safonau'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn Academaidd yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

Adolygir yr Adroddiad Blynyddol hwn gan y pwyllgorau canlynol o fewn y Brifysgol, y mae eu Cylch Gorchwyl yn cynnwys gofyniad i fonitro cydymffurfiad y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg:

- *Pwyllgor Monitro'r Gymraeg*
- *Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor*
- *Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant*

Rôl a swyddogaeth Pwyllgor Monitro'r Gymraeg yw cefnogi a hwyluso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ledled y Brifysgol gan sicrhau:

1. **Polisïau a Gweithdrefnau** - caiff polisïau a gweithdrefnau perthnasol eu sefydlu i gydymffurfio â deddfwriaeth, bydd y gweithredu yn cael ei oruchwylio, a phob polisi a gweithdrefn yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd.

2. **Rheoli Risg** - bydd y strategaethau/polisïau a weithredir, sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth, a bod y Brifysgol yn cadw cofnodion yn amserol a chyflwyno adroddiadau cynhwysfawr yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio y Brifysgol.

3. **Arfer dda** - mae pob arfer yn hyrwyddo ac yn creu diwylliant o wella ansawdd ac yn rhannu arfer dda o ran y Gymraeg, gan sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael yn y man darparu gwasanaeth. Yn ogystal, dylai unrhyw arweiniad, cefnogaeth a chymorth angenrheidiol fod yn eglur er mwyn sicrhau dehongliad cywir o'r Safonau perthnasol a sut y gall arfer y Brifysgol gydymffurfio.

4. **Cyfathrebiadau a datblygu staff** - mae datblygiad a throsolwg o raglen gyfathrebu a hyfforddi yn cael ei gynnal i godi ymwybyddiaeth o fewn y Brifysgol, a gydag eraill fel y bo'n briodol, yn ymwneud â phob agwedd o'r Gymraeg, gan ddarparu cyngor priodol mewn ymateb i ddigwyddiadau ac achosion, a chefnogi staff i ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth.

5. **Cwynion** - derbynnir adroddiadau, a gwneir argymhellion ar gamau gweithredu, yn dilyn unrhyw gwynion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i safonau'r Gymraeg), a lle bo'n briodol bod camau adferol yn cael eu cymryd neu'n cael eu hargymell a bod y camau hyn yn cael eu monitro.

**Cydymffurfio â'r Safonau**

**Gohebiaeth ysgrifenedig**

Pan nad yw iaith ddewisol y person y cysylltir ag ef yn hysbys, neu pan ysgrifennir at grŵp o bobl mewn, er enghraifft, cylchlythyrau trwy e-bost ayb, dylai pob gohebiaeth gychwynnol fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg ar y chwith, neu ar y top, er mwyn iddi ymddangos yn gyntaf. Pan fo'r iaith ddewisol yn hysbys, dylid cyfathrebu yn yr iaith honno. Pan fo rhywun yn ysgrifennu at y Brifysgol gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, darperir ymateb dwyieithog.

Mae penawdau llythyrau'r Brifysgol yn cynnwys datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan nodi na fydd defnyddio'r Gymraeg yn peri oedi wrth ymateb.

Mae llofnodion e-bost a/neu droedynnau e-bost yn nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer y ddwy iaith lle mae'r gweithwyr yn siaradwyr rhugl neu'n ddysgwyr. Mae'r llofnodion hefyd yn cynnwys logos Cymraeg yn y Gweithle sy'n cynnwys teitlau swyddi dwyieithog a manylion cyswllt.

Darperir canllawiau i'r holl staff, mewn sesiynau cynefino, ar sut i osod ymatebion allan o'r swyddfa yn y Gymraeg a'r Saesneg, a rhennir negeseuon atgoffa trwy gydol y flwyddyn yng nghylchlythyr y campws.

**Galwadau ffôn**

Bydd prif rif ffôn y Brifysgol yn cysylltu â system ffôn awtomataidd sy'n cyfarch y galwr yn ddwyieithog (y neges Gymraeg yn gyntaf). Wedi hynny, mae'r system yn caniatáu i'r galwr ddewis a yw'n dymuno siarad â gweithiwr yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rhoddir cyfarwyddiadau i weithwyr ar sut i ymdrin â galwadau er mwyn sicrhau bod galwyr yn cael y gwasanaeth gorau yn eu hiaith ddewisol.

**Cyfarfodydd**

Wrth drefnu cyfarfodydd â rhai o'r tu allan i'r Brifysgol, gofynnir i'r rhai sy'n mynychu i gadarnhau eu hiaith ddewisol o flaen llaw a darperir cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

Mae'r Brifysgol yn cynnal eu cyfarfodydd mewnol mewn Saesneg, gan ddarparu cyfieithu ar y pryd llawn ar gais.

Bydd pob cofnod a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Digwyddiadau**

Yn ystod 2023/24 mae'r Brifysgol wedi cynnal sawl digwyddiad mewnol ac allanol i hyrwyddo'i gwaith ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Lansiwyd y diwrnod cyfleoedd Cymraeg, pan wahoddwyd ysgolion lleol a cholegau addysg bellach ar y campws i gwrdd â staff academaidd Cymraeg ac i ddysgu am y cyfleoedd a gynigir yn y Gymraeg. Mae pob diwrnod agored yn y Brifysgol yn awr yn hyrwyddo'r Gymraeg, gyda staff wrth law i gwrdd a chyfarch teuluoedd Cymraeg.

Cynhaliodd Prifysgol Wrecsam yr ail ddigwyddiad Cymraeg 'Y Sgriblwyr Cymraeg' gyda siaradwyr allanol yn ogystal â chyflwyniadau gan swyddog cangen y Coleg Cymraeg.






Cynhaliwyd seremoni raddio'r Brifysgol yn ddwyieithog, gyda'r cyflwyniad yn cael ei agor yn y Gymraeg gan areithiwr y Brifysgol.

Ym mis Ebrill cynhaliodd y Brifysgol ei chyfarfod Agored Blynyddol, a chyflwynodd Pennaeth Datblygu'r Cyfrwng Cymraeg ddiweddariad dwyieithog i randdeiliaid allanol am ddatblygiad diweddar y Gymraeg yn ogystal ag ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Wrecsam yn 2025.

Mae Darlithoedd Cyhoeddus Ymchwil 'Sgyrsiau Wrecsam' yn gyfres o ddarlithoedd fin nos, rhad ac am ddim, a gynhelir ar y campws gan y Swyddfa Ymchwil ac maent yn agored i bawb. Mae Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam yn ffenestr siop bwysig i Brifysgol Wrecsam, a diben y darlithoedd yw gwahodd trafodaeth a dadl mewn amrywiol feysydd pwnc sy'n procio'r meddwl. Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo mewn ymchwil gymhwysol, ymchwil sy'n trawsnewid, ac ymchwil sy'n dylanwadu ar y gymuned leol a'r byd ehangach; mae'r gyfres o ddarlithoedd yn rhannu hyn mewn ffordd hygyrch i bawb.

Mae holl ddeunyddiau marchnata Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam yn ddwyieithog, gan gynnwys cyfres o bamffledi, posteri, baneri, tudalen Eventbrite, e-byst, baneri e-byst, a'r wefan. Mae'r Swyddfa Ymchwil yn ceisio darparu Siaradwr Cymraeg mewn Darlithoedd Cyhoeddus i sicrhau bod aelodau'r gynulleidfa yn cael gofyn cwestiwn yn

y Gymraeg ar ddiwedd y Ddarlith. Bydd pob darlith gyhoeddus yn cael ei recordio, ac ar gael ar Wefannau'r Brifysgol gyda thrawsgrifiad Cymraeg.

Ymwelodd Comisiynydd y Gymraeg, Efa Jones ac Osian Llywelyn, Rheolwr Rheoleiddio Ansawdd yn swyddfa'r comisiynydd, â'r Brifysgol ym mis Ionawr ac ymunodd Is-ganghellor Prifysgol Wrecsam a Phennaeth Datblygu'r Gymraeg, â hwy, i gwrdd â myfyrwyr Therapi Iaith a Lleferydd. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar sut mae myfyrwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn mannau gofal iechyd fel rhan o'u lleoliadau, a chafwyd taith hefyd o Ardal Arloesi Iechyd ac Addysg (HEIQ).



Cynhelir pob digwyddiad allanol gan y Brifysgol yn ddwyieithog, gyda'r cyfle i gyfranogwyr ofyn cwestiynau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyflwyniadau PowerPoint mewn digwyddiadau hefyd yn ddwyieithog, a chynigir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r rhai sy'n mynychu os gofynnir amdano, a chaiff pob recordiad o ddigwyddiadau ei is-deitlo a'i lanlwytho i wefan y Brifysgol yn y Gymraeg.

Mynychodd aelodau o staff amrywiaeth o ddigwyddiadau hefyd gan gynnwys dyddiau agored Prifysgolion eraill, a ffeiriau recriwtio lle yr oedd o leiaf un gweithiwr yn siarad Cymraeg.

Yn 2023/24 mynychodd Prifysgol Wrecsam yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf. Yn dilyn llwyddiant yr ymweliad â Boduan yn 2023, ymwelodd dros ugain o staff â'r Rhondda, gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal, yn arddangos adrannau fel y Genhadaeth Ddinesig, Undeb y Myfyrwyr, canolfan X-plore a meysydd academaidd amrywiol gyda diwrnod thematig pob wythnos. Gweithgareddau wedi'u cynnwys.

- Dydd Llun, Awst 5 - Dysgu Cymraeg
- Dydd Mawrth, Awst 6 - Addysg
- Dydd Mercher, Awst 7 - Iechyd
- Dydd Iau, Awst 8 - Y Gyfraith a Throseddeg
- Dydd Gwener, Awst 9 - Celf



Lansiodd Prifysgol Wrecsam ei modiwlau dysgu'n seiliedig ar waith, 'Iechyd Perthynol' yn yr Eisteddfod yn 2023/24. Bydd y modiwlau seiliedig ar waith Cymraeg yn galluogi myfyrwyr i gyfathrebu gyda chleifion yn eu hiaith gyntaf tra ar leoliad. Yn y lansiad roedd Nesta Mc Cluskey, Cyfarwyddwr Clinigol Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Perthynol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Nia Wyn Williams, Therapydd Ymgynghorol Strôc yn ymuno ag Elen Mai Nefydd, Pennaeth Datblygu'r Gymraeg, Ffion Roberts, Uwch ddarlithydd mewn therapi Iaith a Lleferydd ac Awel Wynne-Williams, darlithydd mewn nyrsio yn cymryd rhan mewn trafodaeth banel. Mae ychwanegu modiwlau cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddysgu trwy waith yn fuddiol, nid yn unig i ddatblygiad myfyrwyr, ond hefyd i gleifion yng Ngogledd Cymru, os mai Cymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Cafodd Elen Mai Nefydd, Pennaeth Datblygu'r Gymraeg, ei chyfweld gan Ffion Emyr o BBC Radio Cymru, pan oedd hi yn yr Eisteddfod, ynglŷn â'r datblygiadau Cymraeg diweddaraf ym Mhrifysgol Wrecsam yn ogystal ag ymweliad yr Eisteddfod â Wrecsam yn 2025.



Ym mis Ebrill 2024 gwahoddwyd pobl a sefydliadau yn Wrecsam i gymryd rhan yng nghyhoeddiad swyddogol yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn 2025. Bu dros 500 o drigolion lleol ac aelodau o Orsedd Cymru yn gorymdeithio trwy strydoedd Wrecsam, ac yna cynhaliwyd seremoni yng Nghylch yr Orsedd yn Llwyn Isaf yng nghanol y ddinas. Bu hwn yn gyfle i bobl leol ac ymwelwyr i weld un o seremonïau lliwgar yr Orsedd. Hefyd, sefydlodd yr Archdderwydd presennol, Myrddin ap Dafydd, Mererid fel yr Archdderwydd newydd. Roedd y Brifysgol yn falch o fod yn rhan o'r dathliad hwn a chynorthwyo i groesawu'r Eisteddfod yn swyddogol i Wrecsam yn 2025.



Ymunodd dysgwyr Cymraeg â Maer Wrecsam, y Cynghorydd Andy Williams i gymryd rhan yn yr orymdaith i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ddydd Gwener, 1af Mawrth 2024. Roedd yr orymdaith wedi ymgynnull ar lwybrau Llwyn Isaf y tu allan i Neuadd y Ddinas, gan orymdeithio trwy strydoedd Wrecsam.




Cymerodd Prifysgol Wrecsam ran yn y 'Diwrnod Shwmae/Sumae' ym mis Hydref 2024. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae, su'mae neu shwdi! Nod y digwyddiad yw dangos bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb - siaradwyr rhugl, dysgwyr neu y rhai sy'n swil ynglŷn â'u Cymraeg, ac i annog dysgwyr Cymraeg i 'roi cynnig arni' beth bynnag fo'u gallu. Dethlir y Diwrnod yn flynyddol ar **15fed o Hydref**.






**Arwyddion, hysbysiadau, cyhoeddusrwydd, a deunyddiau hyrwyddo, dogfennau, a ffurflenni**

Mae deunyddiau y Brifysgol a ddarperir ar gyfer myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol unai'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu ar y top er mwyn iddi ymddangos yn gyntaf, neu mewn fersiynau ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r fersiynau Saesneg yn unig yn rhoi gwybod i'r darllenydd fod y deunydd ar gael yn y Gymraeg.

**Gwefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae gwefan y Brifysgol a'r gwasanaethau-gwe cysylltiedig yn gwbl ddwyieithog, a gall defnyddwyr newid o'r Gymraeg i'r Saesneg yn rhwydd.

Mae prif gyfrifon y cyfryngau cymdeithasol ar Twitter, Facebook ac YouTube a bydd pob neges yn cael ei phostio yn y Gymraeg a'r Saesneg ar un ffrwd.

Ymatebir i bob neges cyfryngau cymdeithasol yn iaith yr ymholiad gwreiddiol. Bydd fideos ar sianel YouTube y Brifysgol yn cael eu postio yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fo'n bosibl, a darperir isdeitlau yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fo'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn siarad mewn un iaith.

**POLISÏAU A GWEITHDREFNAU**

Mae'n ofynnol i'r holl bolisïau a gweithdrefnau a gyflwynir i'w cymeradwyo gynnwys Ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg, i ddangos na fyddai cyflwyno polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn niweidiol i'r Gymraeg. Yn 2023/24 adolygwyd y ffurflen asesu effaith i gyd-fynd â Cymraeg 2050, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Hefyd, mae gan y Brifysgol Bolisi'r Iaith Gymraeg, sy'n cael ei adolygu bob 3 blynedd neu pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth.

Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau neu ddogfennaeth a gaiff eu huwchlwytho i wefan y Brifysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg.




**Cwynion**

Derbyniodd y Brifysgol un gŵyn anffurfiol yn 2023/2024, yn ymwneud â thudalen cyfryngau cymdeithasol Prifysgol Wrecsam oedd ddim yn cynnwys teitl dwyieithog.

Derbyniodd y Brifysgol hefyd un gŵyn ffurfiol yn 2023/2024, ynglŷn ag arwydd mewn digwyddiad dros dro lle roedd y testun Cymraeg ychydig yn llai na'r testun Saesneg.

**Polisiau a Gweithdrenau**

Mae tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth y Brifysgol yn cynnal monitor rheolaidd o arwyddion o fewn a thu allan i'r safle. Hysbysir cydweithwyr o fewn adrannau am unrhyw faterion a nodir er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cywiro. Caiff manylion y rhain a'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw eu hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, adnabuwyd sawl mater a chawsant eu hamlygu i gydweithwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhai ymatebion awtomatig allan o'r swyddfa gyda negeseuon Saesneg yn unig, negeseuon dwyieithog lle nad oedd y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg, neu lle nad oedd y testun Cymraeg wedi ei arddangos yn yr un fformat â'r testun Saesneg.
- Rhai posteri wedi eu harddangos ar dir y Brifysgol ddim yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).
- Tudalen gwe ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol nad oedd ar gael yn y Gymraeg.
- Dim tudalen Instagram Prifysgol Wrecsam.
- Arwyddion lle roedd y testun Cymraeg yn llai na'r Saesneg.
- Rhai dogfennau ar y wefan oedd wedi cadw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn fformatau gwahanol, fel Microsoft Word a PDF.

Daethpwyd o hyd i'r themâu hyn trwy fonitor mewnol, fel adolygu'r wefan a thudalennau cysylltiedig y cyfryngau cymdeithasol, galwadau dirgel i dair derbynfa y campws, ac adolygu posteri a arddangosir o amgylch yr adeiladau.

## RECRIWTIO

Mae'r Brifysgol yn parhau i werthuso'r gofynion am sgiliau Cymraeg wrth wneud cais am swydd wag, a chefnogir rheolwyr recriwtio i ystyried yr angen am sgiliau siarad Cymraeg gan eu Partner Busnes AD. Mae'n orfodol i'r Rheolwr Recriwtio nodi wrth wneud cais am swydd wag a yw sgiliau Cymraeg yn Hanfodol neu'n Ddymunol, ar gyfer pob cais. Cafodd y system recriwtio ei gwella ymhellach yn 2023/24, sy'n sicrhau bod y wybodaeth ar y cais am swydd wag yn cael ei lenwi'n awtomatig i'r hysbyseb pan fo swydd wag yn cael ei hysbysebu. Mae hyn yn cael gwared â'r elfen o orfod ychwanegu brawddeg at bob hysbyseb â llaw, gan ddileu'r risg o beidio â dangos y lefel o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl.

Wrth hysbysebu swyddi â'r Gymraeg yn hanfodol, bydd y Brifysgol yn ystyried defnyddio gwefannau recriwtio Cymraeg. Yn ystod y cyfweliad, bydd o leiaf un aelod o'r panel dethol yn siaradwr Cymraeg rhugl, a fydd yn gofyn o leiaf un cwestiwn yn y Gymraeg i'r ymgeisydd, a bydd angen ateb yn y Gymraeg.

Mae ein ffurflen gais yn darparu lle i ymgeiswyr nodi os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad, neu mewn unrhyw ddull arall o asesu. Mae hefyd yn esbonio y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu, pe bai angen.

Wrth gynnig swydd newydd, byddwn yn gofyn i'r unigolyn a yw am dderbyn unrhyw ohebiaeth ffurfiol, gan gynnwys y cytundeb cyflogaeth, yn y Gymraeg.

Yn y flwyddyn adrodd, rydym wedi hysbysebu swyddi newydd a gwag (fel y nodir isod):

Safonau 145/145A - Mewn perthynas â nifer yr hysbysebion swyddi gwag yn 2023/2024 - dewch o hyd i'r data isod.

| **01/08/2023 - 31/07/2024** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Academaidd** | **Gwasanaethau Proffesiynol** | **Cyfanswm** |
| Cymraeg yn Hanfodol | 3 | 2 | **5** |
| Cymraeg yn Ddymunol | 121 | 145 | **266** |
| Dim Angen y Gymraeg | 0 | 0 | **0** |
| Cyfanswm yr hysbysebion | | | **271** |

## SGILIAU CYMRAEG

I gefnogi cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg 134/158 rhoddodd y Brifysgol System AD newydd ar waith ym mis Awst 2022, gyda modiwl Hunanwasanaeth y gweithiwr yn mynd yn fyw ym mis Hydref 2022. Roedd yn fwriad i gynnal arolwg staff i gasglu gwybodaeth am Sgiliau'r Gymraeg yn ystod 2023/2024, ond oherwydd yr oedi wrth symud y system recriwtio ac AD newydd, gohirwyd hyn tan 2024/2025. Rhagwelir y bydd data yn cael ei gasglu gan weithwyr newydd a gweithiwyr presennol yn ystod 2024/2025 a fydd yn dilyn y fframwaith CEFR a argymhellir gan Swyddfa Comisiynwyr y Gymraeg. Bydd canlyniadau'r arolwg ar gyfer 2024/2025 ar gael erbyn diwedd y Flwyddyn Academaidd.

## DARPARIAETH A GWELLIANNAU CYFRWNG CYMRAEG


Ers 2022 mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog trwy ei strategaeth - CYFLE. Mae diweddariadau rheolaidd ar CYFLE yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, y pwyllgor Recriwtio a Chadw, y Bwrdd Academaidd, Pwyllgor Monitro'r Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ogystal, cwblhawyd adolygiad blynyddol a diweddariad ar y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2023, ynghyd ag adolygiad ganol blwyddyn ddiwedd Mai 2024. Hefyd cwblhawyd adolygiad o'r ddarpariaeth ryngbroffesiynol mewn Iechyd ym Mehefin 2024.

Ar ddiwedd pob semester gofynnwyd i'r staff ym Mhrifysgol Wrecsam i recordio unrhyw weithgaredd cyfrwng Cymraeg o fewn eu rhaglenni.
https://forms.office.com/e/6chzaQ0zRg

**Data am gredydau cyfrwng Cymraeg**

Saith myfyriwr ar ddeugain credyd neu fwy; Naw deg saith myfyriwr ar bump neu fwy o gredydau.




Bellach cynigir deugain credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ar y rhaglen Therapi Iaith a Lleferydd a'r rhaglen hyfforddiant Pêl-droed. Cynigir ugain credyd ar raglen y Gyfraith a gall rhaglenni Iechyd Perthynol gan gynnwys Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi ac Arferion Gweithredu gynnig modiwlau cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddysgu trwy waith.

Lansiodd Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd eu rhaglen Sylfaen yn 2024 gan gynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg ac mae Cyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianneg yn datblygu modiwlau ar gyfer 2025.

O ddechrau'r flwyddyn academaidd 2023/24, mae gofyn i fyfyrwyr gradd Plismona Proffesiynol ym Mhrifysgol Wrecsam gwblhau modiwl Cymraeg yn y gweithle fel rhan o'u hastudiaethau. Llwyddodd pymtheg o fyfyrwyr i ennill cymhwyster Lefel 2 Cymraeg yn y Gweithle. Bydd hyn yn eu paratoi ar gyfer gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, lle mae hyn yn ofyniad proffesiynol. Mae Prifysgol Wrecsam wedi gweithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth hon, ac ar gyfer 2024/25 ymestynnir hyn i fyfyrwyr y Gyfraith a Throseddeg hefyd.

**Diwrnod ymwybyddiaeth Rhyngbroffesiynol y Gymraeg**

Ym mis Ionawr 2024 arweiniodd dau o'r Tîm Datblygu Academaidd ar y diwrnod ymwybyddiaeth Rhyngbroffesiynol y Gymraeg cyntaf ym maes Iechyd a Nyrsio. Yn ystod y digwyddiad 'Gofal ac Iaith, Law yn Llaw' cymerodd dros ddau gant o fyfyrwyr Nyrsio ac Iechyd Perthynol ran mewn Diwrnod Addysg Rhyngbroffesiynol cydweithredol - gan ganolbwyntio ar y Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sgyrsiau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a chynrychiolwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ystod y dydd bu cynhadledd yn y bore gyda siaradwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn y prynhawn llwyddodd y carfanau i rwydweithio â myfyrwyr eraill a darganfod mwy am y gwahanol ddisgyblaethau Iechyd Perthynol, yn

ogystal â manteisio ar y cyfle i siarad â sefydliadau amrywiol, megis Menter Iaith, Coleg Cambria a Thiwtor Cymraeg y Brifysgol, Teresa Davies. Roedd myfyrwyr hefyd yn gallu dysgu mwy am ddosbarthiadau a chymdeithasau Cymraeg i ymarfer yr iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod sesiwn y prynhawn, bu myfyrwyr yn ymgymryd â gwersi bach Cymraeg, yn seiliedig ar eu gallu, gyda'r nod o gynyddu eu hyder, ac ehangu eu geirfa sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.







**Dysgu Dros Ginio**

Cyflwynodd Pennaeth Datblygu'r Gymraeg sesiwn dysgu drio ginio i'r holl staff ar draws amrywiol adrannau'r Brifysgol ar ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd gan gwmni OB3 a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am agweddau myfyrwyr at astudio yn y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru, ac agweddau myfyrwyr at adael Cymru i astudio dros y ffin yn Lloegr. Cyfrannodd staff y Brifysgol at ddogfen ymgynghori'r ymchwil hwn, gan adrodd ar y canfyddiadau i Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Mai. Rhai o'r themâu a nodwyd yn yr ymchwil oedd:

- yr angen am gymorth pellach i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo i AU o addysg cyfrwng Cymraeg.
- bod angen cefnogaeth i fagu hyder, hyblygrwydd a chymorth gyda therminoleg.
- yr angen am fwy o staff cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol.

**Gwobr Genedlaethol**

Cafodd Pennaeth Datblygu'r Gymraeg ei chydnabod am ei chyfraniad i'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch (AU) mewn seremoni wobrwyo genedlaethol fawreddog. Cynhaliwyd Gwobrau Blynyddol y Coleg Cymraeg

ym mis Mehefin yng Nghanolfan S4C yr Egin yng Nghaerfyrddin, lle derbyniodd Elen Mai Nefydd y Wobr Cyfraniad Eithriadol, a oedd yn cydnabod ei gwaith caled a'i hymroddiad dros y ddau ddegawd tra'n gweithio mewn AU.





**Cynllun Cymraeg Gwaith**

Cymeradwywyd cyllid ar gyfer y cynllun Cymraeg Gwaith ar gyfer 2024/25 gan Ganolfan y Gymraeg ac o ganlyniad gall y Brifysgol bellach ddarparu pum lefel o astudiaeth Gymraeg i'r holl staff. Cymerodd chwe deg aelod o staff ddiddordeb yn y cyrsiau eleni. Fel rhan o'r cynllun, mae'r Brifysgol yn cynnal bore coffi 'Coffi a Chlonc' ar ddydd Mercher cyntaf pob mis, gyda llawer o staff yn mynychu, ac mae'r sesiynau hyn bellach yn cysylltu'n uniongyrchol â gweithgareddau dysgu'r staff sy'n dilyn y cynllun Cymraeg Gwaith.

Penodwyd dysgwr Cymraeg, a ddaeth yn rhugl mewn tair blynedd, yn diwtor Cymraeg, a dyfarnwyd Hyrwyddwr Cymraeg y flwyddyn iddi yng ngwobrau blynyddol Undeb y Myfyrwyr ym mis Mai 2024.




**Cymraeg yn y Gweithle**
Cynlluniwyd y llwybrau hyn ar gyfer holl fyfyrwyr y Brifysgol ac maent yn cynorthwyo myfyrwyr i wella eu sgiliau Cymraeg tra'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae'r llwybrau hyn yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr sy'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam.

**Sgiliau Iaith Gymraeg**
Yn ystod 2023/24, llwyddodd dau fyfyriwr o Brifysgol Wrecsam i gwblhau tystysgrif Sgiliau Cymraeg Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.






**Y Coleg Cymraeg**

Sefydlwyd cangen y Coleg Cymraeg yn y Brifysgol (Cangen Wrecsam) yn 2022 ac mae'n dal i ffynnu. Mae'r gangen yn rhoi cyfle i drafod materion academaidd y 'Coleg Cymraeg' gyda staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae croeso i bawb ddod i'r cyfarfodydd, ond mae aelodaeth graidd sefydledig o staff Cymraeg (gweithredol ac academaidd) yn ogystal â chynrychiolaeth myfyrwyr bellach wedi ei sefydlu. Cynhelir pum cyfarfod cangen yn ystod y calendr academaidd.

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL
CANGEN WRECSAM

Fforwm i glywed llais y gymuned academaidd addysg uwch ac i gynghori ar weithgareddau yn y sector yw Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg. Mae'r aelodau yn cynnwys: y Cadeirydd, cynrychiolwyr o gymunedau'r myfyrwyr a'r staff; darparwyr (unigolion sydd â chyfrifoldebau strategol am y Gymraeg o fewn eu sefydliad); aelodau cyfetholedig. Cynrychiolwyr Prifysgol Wrecsam ar y bwrdd yw Elen Mai Nefydd (Pennaeth Datblygu'r Gymraeg), Awel Wynne-Williams (Darlithydd Nyrsio Plant), Ffion Roberts (Darlithydd Iaith a Lleferydd a Hyrwyddwr Cymraeg Iechyd) a Llio Owen (cynrychiolydd y myfyrwyr).

Recriwtiodd Prifysgol Wrecsam dri o lysgenhadon myfyrwyr y Coleg Cymraeg yn 2023/24. Mae rolau'r llysgenhadon yn bwysig i gynrychioli'r Gymraeg yn y Brifysgol o fewn y corff myfyrwyr, a hefyd i gynrychioli'r Brifysgol ar lefel genedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Y llysgenhadon a benodwyd oedd Hedd Owen o'r rhaglen Ffisiotherapi, Hannah John o Plismona Proffesiynol a Catherine Lewis o Nyrsio yn Llanelwy.




**Wythnos y Glas/Undeb Myfyrwyr**

Hyrwyddwyd digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog i fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam yn ystod wythnos y Glas. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cyflwyniad ffurfiol gan Bennaeth Datblygu'r Gymraeg ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, bore coffi anffurfiol, a digwyddiad Bingo Cymraeg/dwyieithog.






Cynigwyd digwyddiad cerddoriaeth Gymraeg hefyd yn ystod Ffair y Glas.

Yn ogystal, bydd staff y gangen yn mynychu paneli pwnc Y Coleg Cymraeg 4 - y Gyfraith, Seicoleg, gwaith Cymdeithasol, Iechyd, a Hyfforddiant Pêl-droed.




## CYNLLUN GWAITH AR GYFER 2024/25

Mae Cynllun Gwaith diwygiedig CYFLE yn ddatblygiad o'r gwaith a sefydlwyd yn 2023/24, gyda datblygiadau pellach ar y gweill ynglŷn â darpariaeth y Gymraeg, gan gynnwys:

- Cynnydd mewn myfyrwyr Cymraeg/dwyieithog a thwf parhaus mewn credydau cyfrwng Cymraeg. Mae'r meysydd twf yn cynnwys Iechyd, y Gyfraith, Hyfforddiant Pêl-droed ac Ieuenctid a Chymuned, a meysydd ar gyfer datblygiad sgiliau'r Gymraeg mewn Gwaith Cymdeithasol, Iechyd Perthynol a Nyrsio, STEM a Throseddeg.
- Diogelu hawliau cyfreithiol myfyrwyr i astudio a derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfrannu at fenter y Llywodraeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy barhau â'r bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg.
- Cynyddu lefelau'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer staff a thrwy wella sgiliau myfyrwyr yn y Gymraeg i'w paratoi ar gyfer y gweithle.
- Cyfrannu at wella gweithlu dwyieithog trwy ddatblygiadau i ffurfioli ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn gwaith rhyngbroffesiynol mewn iechyd.
- Cadarnhau cysylltiadau cymunedol a diwylliannol wrth ragweld digwyddiadau fel ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Wrecsam yn 2025, y cais am Ddinas Diwylliant yn 2029, a fydd yn ei dro yn gwella ein cenhadaeth ddinesig.
- Cryfhau ein perthynas â Choleg Cambria trwy gyfleoedd yn y Gymraeg.
- Datblygu ymhellach y ddarpariaeth gyflogadwyedd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu ymhellach ddeunyddiau dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn arbennig o ganlyniad i lwyddiant y grant diweddar gan *Y Coleg* i ddatblygu adnoddau efelychiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

## RHAGOR O WYBODAETH / DARPARU ADBORTH

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg, neu pe baech yn dymuno rhoi adborth adeiladol i ni am ein darpariaeth Gymraeg, e-bostiwch: [welshcompliance@wrexham.ac.uk](mailto:welshcompliance@wrexham.ac.uk)